Measure Foreign National Offender Referrals Incident Reporting System – assaults checks Incident Reporting System – self-harm checks Prison Operating within Budget Staff Resignation Rate Staff Sickness Absence

In the chart below, the target figure is shown by the blue line. The outturn figure is indicated by the coloured gauge and shown numerically under the gauge.

Target and outturn figures for Cardiff, Organisational Effectiveness - , 2019-20



Prison rating by year, Cardiff



Probation Caseload

Reset


Contents

Multiple selections may be made from slicers with square check boxes. To select multiple options hold down the CTRL key on your keyboard whilst making your selection from the list. Where a slicer has circular check boxes only one option may be chosen. (Please note 2016 Q4 data is currently unavailable)

Source and user guides are available: [Offender Management Statistics quarterly](#).


NPS/CRC ORDER TYPE
 Multiple selections All community sentences

Probation caseload for selected NPS/CRCs, All community sentences



To note: Wales CRC transferred to NPS Wales in Dec 2019.

Probation caseload for selected NPS/CRCs by gender, All community sentences



Eitem 3

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 17 Ionawr 2021

SL(6)116 – Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhif 3) 2021

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn cael eu gwneud o ganlyniad i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf"). Mae'r Ddeddf honno yn diwygio'r gyfraith ar addysg a hyfforddiant ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i'r Rheoliadau a ganlyn:

- Rheoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) 2002;
- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007; a
- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant sy'n cael eu Haddysg drwy Ddarpariaeth Amgen) (Cymru) 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth ynglŷn â thystysgrifau cofnod troseddol manwl a darparu gwybodaeth am anghenion dysgu ychwanegol a chynlluniau datblygu unigol. Ystyrir bod y diwygiadau'n angenrheidiol neu'n hwylus i sicrhau bod darpariaeth briodol o fewn y setiau o Rheoliadau sy'n cael eu diwygio yng ngoleuni'r ffaith bod y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn grym yn rhannol a bod adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 wedi'i ddiddymu.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 18 Ionawr 2022. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn darparu bod diwygiadau pellach i is-ddeddfwriaeth arall yn debygol o gael eu gwneud maes o law, o ganlyniad i Ddeddf 2018.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
Fe'u gwnaed ar: 16 Rhagfyr 2021
Fe'u gosodwyd ar: 17 Rhagfyr 2021
Yn dod i rym ar: 18 Ionawr 2022



SL(6)121 - Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2021

Cefndir a Diben

Mae'r **Rheoliadau** hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003").

Ar 16 Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, gynlluniau ar gyfer dysgwyr ysgol yn dychwelyd ym mis Ionawr 2022. Roedd y cynlluniau hyn yn cynnwys dyrannu dau ddiwrnod cynllunio ar gyfer ysgolion ar ddechrau'r tymor ysgol newydd ym mis Ionawr 2022.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2003 drwy ychwanegu rheoliad 7 newydd i ganiatáu i amser yn ystod y tymor gael ei neilltuo ar gyfer diwrnodau cynllunio er mwyn i ysgolion asesu capasiti staffio a rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith i gefnogi dychweliad dysgwyr. Effaith y rheoliad 7 newydd yw caniatáu i hyd at bedair sesiwn (dau ddiwrnod) gyfrif fel sesiynau pan gyfarfu'r ysgol os oeddent wedi eu neilltuo ar gyfer paratoi ysgolion a gwaith cynllunio gan athrawon o ganlyniad i achosion a throsglwyddiad y coronafeirws yn ystod blwyddyn ysgol 2021-2022. Rhaid i'r sesiynau hyn gael eu cynnal ar ddau ddiwrnod cyntaf ail dymor (gwanwyn) blwyddyn ysgol 2021-22.

Mae gwneud y Rheoliadau diwygio hyn yn golygu y bydd ysgolion yn gallu bodloni'r nifer ofynnol o sesiynau yn ystod blwyddyn ysgol 2021-22 fel y nodir yn Rheoliadau 2003. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu y bydd y Rheoliadau hyn yn helpu i sicrhau bod gan ysgolion gynlluniau cadarn ar waith pe bai tarfu ar ddysgu ar y safle dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



Rhinweddau: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 21 Rhagfyr 2021. Yn benodol, rydym yn nodi'r hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ynghylch torri'r rheol:

"Pwrpas yr offeryn yw diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol)(Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") i ganiatáu'r deuddydd cyntaf ar ddechrau tymor y gwanwyn yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-22 i gael eu dyrannu ar gyfer diwrnodau cynllunio er mwyn i ysgolion asesu capasiti staffio a rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith i gefnogi dychweliad dysgwyr. Bydd hefyd yn sicrhau bod ganddynt gynlluniau cadarn pe bai tarfu ar ddysgu ar y safle dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Heb y Rheoliadau hyn ar waith erbyn dechrau tymor y gwanwyn 2021-22, ni fydd ysgolion yn cwrdd â'r nifer ofynnol o sesiynau yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-22 fel y nodir yn Rheoliadau 2003."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na chafwyd ymgynghoriad llawn cyn i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud, ond gwnaeth Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys undebau llafur a Chomisiynydd Plant Cymru, yn y cyfnod cyn i'r Rheoliadau gael eu gwneud. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y Memorandwm Esboniadol:

"Roedd yr adborth ar y diwrnodau cynllunio yn gyffredinol bositif, ac roedd awdurdodau lleol o'r farn y byddai adolygu cynlluniau wrth gefn a lefelau staffio ar y pwynt hynny – gan blethu hefyd y dealltwriaeth ddiweddaraf ar yr amrywiolyn Omicron – yn help i leihau tarfu yn y tymor hirach.

Gan fod y newidiadau'n berthnasol i'r dychweliad ym mis Ionawr 2022, nid oedd digon o amser i gynnal ymgynghoriad llawn. Nid oedd peidio â gwneud y Rheoliadau hyn yn opsiwn ymarferol gan bod cydnabyddiaeth bod ysgolion angen amser ar ddechrau'r tymor i adolygu a diwygio trefniadau, gan adeiladu'r dealltwriaeth ddiweddaraf o lefelau staffio bryd hynny i'r trefniadau gweithredol."



3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn fod Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu y gallai fod rhai costau ariannol i'r sector cyhoeddus o ganlyniad i wneud y Rheoliadau hyn.

"Efallai y bydd yn rhaid i ysgolion sy'n dewis defnyddio deuddydd cyntaf tymor y gwanwyn 2021-22 aildrefnu digwyddiadau a hyfforddiant a drefnwyd ar gyfer y dyddiau hyn. Efallai y bydd costau hefyd o ganlyniad i'r wneud yr aildrefniadau angenrheidiol ar gyfer trafndiaeth ysgol, darpariaeth arlwyo a gwasanaethau cefnogi eraill. Efallai y bydd costau gofal plant ychwanegol i deuluoedd hefyd os bydd y diwrnodau cynllunio hyn yn arwain at ddysgwyr yn dychwelyd i'r ysgol yn hwyrach na'r disgwyl. Mae'r graddau y bydd teuluoedd yn ysgwyddo cost gofal plant ychwanegol yn debygol o ddeillio o amgylchiadau a dewisiadau unigol. Bydd rhai teuluoedd yn defnyddio aelodau teulu, bydd eraill yn cymryd diwrnod i ffwrdd o'r gwaith neu (lle bo hynny'n bosibl) yn gweithio gartref. Lle mae angen gofal plant â thâl, mae'r gost yn debygol o fod oddeutu £30-40 y plentyn am y dydd."

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gydymffurfio â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 drwy gynnal asesiadau effaith a sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau statudol, o ran darparu'r nifer ofynnol o sesiynau ysgol a darparu gofal plant digonol. Nodwn y paragraffau canlynol o'r Memorandwm Esboniadol sy'n ymwneud â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:

"Gallai egwyl hanner Nadolig a blwyddyn newydd estynedig effeithio'n andwyol ar grwpiau difreintiedig a'r rhai sy'n agored i niwed. Gall teuluoedd sy'n byw mewn tldi neu'r rheini y mae eu hincwm yn ddibynnol ar yr oriau gwirioneddol a weithiwyd ei chael hi'n anodd darparu gofal plant am y dyddiau ychwanegol hynny."

Mae rhoi gwybod i awdurdodau lleol mor fuan â phosib am y newidiadau hyn wedi rhoi amser ychwanegol i rieni wneud cynlluniau ar gyfer y deuddydd hyn, ac i rai bydd yn golygu bod plant yn dychwelyd i'r ysgol fel a fwriadwyd os yw diwrnodau HMS yn cael eu haildrefnu ar gyfer dyddiadau eraill yn hwyrach yn y flwyddyn ysgol. Rydym hefyd wedi hysbysu awdurdodau lleol ac ysgolion y dylent ar yr ail ddiwrnod ystyried pa ddarpariaeth y gallai fod angen ei rhoi arwaith ar gyfer plant bregus a phlant gweithwyr hanfodol. Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol hefyd roi sylw i anghenion ehangach eu cymuned ac effaith unrhyw benderfyniadau i beidio â rhoi darpariaeth o'r fath ar waith."



Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn cydnabod hawl plentyn i addysg a sefydlwyd yn erthygl 28 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Nodwn y paragraff a ganlyn sy'n ymwneud â'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

"Gellid dadlau y gallai colli deuddydd o ddysgu mewn rhai ysgolion gael effaith niweidiol ar ddysgwyr. Fodd bynnag, nod y diwrnodau hyn yw i leihau ar y tarfu ar ddysgu ac addysgu yn y tymor hirach ac fe'i ystyried yn gam pwyllog i adolygu a pharatoi ar gyfer y tymor i ddod."

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu y bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cyhoeddi maes o law.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

6 Ionawr 2022



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament **Tudalen y pecyn 60**

Legislation, Justice and Constitution Committee



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Rhagfyr 2021

Annwyl Llywydd

**Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio)
(Coronafeirws) 2021**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 1 Ionawr 2022, ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Pwrpas yr offeryn yw diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") i ganiatáu'r deuddydd cyntaf ar ddechrau tymor y gwanwyn yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-22 i gael eu dyrannu ar gyfer diwrnodau cynllunio er mwyn i ysgolion asesu capasiti staffio a rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith i gefnogi dychweliad dysgwyr. Bydd hefyd yn sicrhau bod ganddynt gynlluniau cadarn pe bai tarfu ar ddysgu ar y safle dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Heb y Rheoliadau hyn ar waith erbyn dechrau tymor y gwanwyn 2021-22, ni fydd ysgolion yn cwrdd â'r nifer ofynnol o sesiynau yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-22 fel y nodir yn Rheoliadau 2003.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jeremy Miles', with a stylized, cursive script.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Minister for Education and Welsh Language

SL(6)126 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol¹ yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofynion i bersonau sy'n cyrraedd Cymru archebu a chymryd profion coronafeirws ac ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hynny. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol drwy wneud y newidiadau a ganlyn:

- Dileu'r gofyniad ar gyfer profion cyn ymadael ar gyfer teithwyr sydd wedi'u brechu'n llawn a phawb o dan 18 mlwydd oed;
- Dileu'r gofyniad i ynysu hyd nes y ceir canlyniad negatif mewn prawf diwrnod 2 ar ôl cyrraedd ar gyfer teithwyr sydd wedi'u brechu'n llawn a phawb o dan 18 mlwydd oed;
- Diwygio'r gofyniad i brofion ar ôl cyrraedd fod yn rhai PCR er mwyn caniatáu i brofion LFD gael eu defnyddio fel dewis amgen ar gyfer personau sydd wedi'u brechu'n llawn a'r rhai o dan 18 oed, a darparu bod rhaid i unrhyw un sy'n profi'n bositif mewn prawf LFD ynysu a chymryd prawf PCR dilynol;
- Ychwanegu 16 o wledydd at y rhestr o raglenni brechu cydnabyddedig;
- Eithrio plant o dan 5 mlwydd oed o ofynion profi ac ynysu;
- Gwneud diwygiadau canlyniadol i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd.

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd² yn gosod gofynion ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n dod o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i faes awyr, maes hofrenyddion neu borthladd môr yng Nghymru i ddarparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd benodedig i deithwyr. Gwneir newidiadau canlyniadol i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i sicrhau bod y Rheoliadau hyn yn gyson o ran y derminoleg a ddefnyddir.

Y weithdrefn

Negyddol.

¹ Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (S.I. 2020/574)

² Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (S.I. 2020/595)



Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 13(2) yn mewnosod paragraff 1ZCA newydd yn Atodlen 1C i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae paragraff 1ZCA(1)(h) yn darparu:

“(h) os yw'n trefnu gyda pherson arall (“X”) i X gyflawni unrhyw elfen o'r un gwasanaeth profi o'r dechrau i'r diwedd ar ei ran, pan fo'r darparwr prawf yn sicrhau bod X yn cydymffurfio â'r canlynol i'r graddau y maent yn berthnasol i gyflawni'r elfen honno -

(i) paragraff 1ZA(1)(b) i (e) ac (h) fel y'i cymhwysir gan baragraff (a) o'r is-baragraff hwn;

(ii) paragraff (c) i (g) o'r is-baragraff hwn;

*(iii) **paragraff 2D(2) a (4).**” [ychwanegwyd pwyslais]*

Cafodd paragraff 2D o Atodlen 1C ei ddirymu gan reoliad 13(5) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021.³

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn negyddol gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol, a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 6 Ionawr 2022.

³ RhS 2021/1342



Yn benodol, rydym yn nodi'r hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ynghylch pam mae'r rheoliadau hyn yn torri'r rheol 21 diwrnod:

"Yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu nad yw'r offeryn statudol hwn wedi cadw at y confensiwn 21 diwrnod, ac y bydd rhai darpariaethau'n dod i rym cyn y gellir gosod yr offeryn. Bydd y newidiadau i brofion cyn ymadael, profion ar ôl cyrraedd a gofynion ynysu, a'r diwygiadau canlyniadol i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd, yn dod i rym o 04:00 ddydd Gwener 7 Ionawr ymlaen; bydd newidiadau pellach i brofion ar ôl cyrraedd yn dod i rym o 04:00 ddydd Sul 9 Ionawr ymlaen a bydd ychwanegu 16 o wledydd at y rhestr o raglenni brechu cydnabyddedig yn dod i rym o 04:00 ddydd Llun 10 Ionawr ymlaen.

... Drwy beidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod gall y Rheoliadau hyn ddod i rym ar y cyfle cynharaf a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; oherwydd y dystiolaeth newidiol ar y risg mewn perthynas â'r afiechyd hwn ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gam y gellir ei gyfiawnhau yn yr achos hwn."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angenam ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddusmewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Pwyllgor yn nodi nad oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn a bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:



"Ni chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys er mwyn ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd."

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt adrodd technegol.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

12 Ionawr 2022



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 66

Legislation, Justice and Constitution Committee



Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

6 Ionawr 2022

Annwyl Elin

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022

Yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu nad yw'r offeryn statudol hwn wedi cadw at y confensiwn 21 diwrnod, ac y bydd rhai darpariaethau'n dod i rym cyn y gellir gosod yr offeryn. Bydd y newidiadau i brofion cyn ymadael, profion ar ôl cyrraedd a gofynion ynysu, a'r diwygiadau canlyniadol i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd, yn dod i rym o 04:00 ddydd Gwener 7 Ionawr ymlaen; bydd newidiadau pellach i brofion ar ôl cyrraedd yn dod i rym o 04:00 ddydd Sul 9 Ionawr ymlaen a bydd ychwanegu 16 o wledydd at y rhestr o raglenni brechu cydnabyddedig yn dod i rym o 04:00 ddydd Llun 10 Ionawr ymlaen. Amgaeaf gopi o'r offeryn statudol ac rwy'n bwriadu ei osod, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, yfory, sef dydd Gwener 7 Ionawr 2022.

Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 er mwyn:

- Dileu'r gofyniad ar gyfer profion cyn ymadael ar gyfer teithwyr sydd wedi'u brechu'n llawn a phawb o dan 18 mlwydd oed;
- Dileu'r gofyniad i ynysu hyd nes y ceir canlyniad negatiff mewn prawf diwrnod 2 ar ôl cyrraedd ar gyfer teithwyr sydd wedi'u brechu'n llawn a phawb o dan 18 mlwydd oed;
- Diwygio'r gofyniad i brofion ar ôl cyrraedd fod naill ai'n brawf Adwaith Cadwynol Polymerasau (PCR) neu'n brawf Dyfais Llif Unffordd (LFD) a darparu bod rhaid i unrhyw un sy'n cael canlyniad positif o'i brawf llif unffordd ynysu a chymryd prawf PCR dilynol;
- Ychwanegu 16 o wledydd at y rhestr o raglenni brechu cydnabyddedig;

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Eithrio plant o dan 5 mlwydd oed o ofynion profi ac ynysu;
- Gwneud diwygiadau canlyniadol i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd.

Gwneir newidiadau canlyniadol i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i sicrhau bod y Rheoliadau hyn yn gyson o ran y derminoleg a ddefnyddir.

Drwy beidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod gall y Rheoliadau hyn ddod i rym ar y cyfle cynharaf a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; oherwydd y dystiolaeth newidiol ar y risg mewn perthynas â'r afiechyd hwn ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gam y gellir ei gyfiawnhau yn yr achos hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

SL(6)123 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

Cefndir a Diben

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") a Rheoliadau Paratodau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 ("Rheoliadau 2021") yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE.

Mae'r diwygiadau i Reoliadau 2011 yn gymwys ym maes rheolaethau bioddiogelwch ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid, sydd wedi'u cynnwys yn y gyfres o nwyddau a elwir gyda'i gilydd yn nwyddau iechydol a ffyto-iechydol. Diben y diwygiadau hyn yw er mwyn sicrhau cysondeb â newidiadau gan Lywodraeth y DU i Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor, dyddiedig 15 Mawrth 2007, ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion, a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael eu rhoi arwaith. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r dull diwygiedig o ran rheoli mewnforion rhwng yr UE a Phrydain Fawr sydd wedi'i fabwysiadu gan Lywodraeth y DU o 31 Rhagfyr 2021 ymlaen.

Diwygir Rheoliadau 2011 i wneud rhaghysbysiad yn ofynnol o 1 Ionawr 2022 ymlaen pan fydd holl sgil-gynhyrchion anifeiliaid categori 3, nad ydynt eisoes yn destun rheolaethau ers 1 Ionawr 2021, yn cyrraedd. Sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 3 yw'r categori risg isaf, ac maent yn cynnwys cynhyrchion fel crwyn anifeiliaid, cregyn, gwastraff arlwydo domestig a rhai cynhyrchion yr ystyrir eu bod yn addas i bobl eu bwyta. Mae nwyddau personol sy'n rhan o fapiau teithwyr ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta neu eu defnyddio'n bersonol, llwythi bach o nwyddau a anfonir at bersonau naturiol na fwriedir eu rhoi ar y farchnad, a nwyddau a gynhyrchir yng Ngogledd Iwerddon neu Weriniaeth Iwerddon ac a symudir neu a fewnforir i Brydain Fawr o Weriniaeth Iwerddon, wedi eu hesemptio dros dro o'r gofynion rhaghysbysu a ddaw i rym fel arall mewn perthynas â chynhyrchion anifeiliaid o 1 Ionawr 2022.

Gwneir diwygiad hefyd i Reoliadau 2011 i alluogi pwerau gorfodi i barhau i fod ar gael yn ystod y cyfnod trosiannol estynedig, ac eithrio mewn safleoedd rheoli ffiniau mewn perthynas ag anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau 2021 i estyn yr ataliad dros dro presennol ar y gofyniad i baratodau cig a fewnforir i Loegr o Aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaro,



yr Ynys Las neu'r Swistir, gael eu rhewi'n ddwfn, gan gadw'r hawddfrait dros dro hwn yn unol â'r rheolaethau cyfnod trosiannol diwygiedig. Bydd yn caniatáu i baratodau cig o'r UE barhau i gael eu mewnfario mewn cyflwr oer tan 30 Mehefin 2022. Mae'r Rheoliadau yn ceisio sicrhau cysondeb â'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer cyflwyno rheolaethau mewnfario ar nwyddau sy'n cyrraedd o'r gwledydd hynny ar 1 Gorffennaf 2022. Heb y Rheoliadau byddai'n anghyfreithlon i fasnachwyr fewnfario paratodau cig oer, a hynny ers 1 Ionawr 2022.

Y weithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Memorandwm Esboniadol ar y Rheoliadau hyn yn nodi

"Given the urgent nature of the Regulations, no public consultation has been undertaken; however, there has been GB-wide extensive stakeholder engagement with the Agri-Food industry and with delivery partners with responsibilities over SPS border controls."

Nodir bod Llywodraeth y DU, fodd bynnag, wedi cynnal ymgynghoriad byr mewn perthynas â'i rheoliadau rhwng 10 a 13 Rhagfyr 2021, a oedd yn cydnabod rhai newidiadau a oedd yn effeithio ar Gymru. O ystyried bod Llywodraeth y DU wedi gallu cynnal ymgynghoriad, gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau pam na allai hi gynnal ymgynghoriad byr tebyg yng Nghymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.



Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
12 Ionawr 2022





Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: MA/L/LG/4293/21

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

22 Rhagfyr 2021

Annwyl Elin,

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ymestyn Cyfnodau Trosiannol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

Heddiw rwyf wedi gwneud Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ymestyn Cyfnodau Trosiannol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 ("y Rheoliadau") drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Rheoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig (Cymru) 2011, a pharagraff 1(1) o Atodlen 2, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Daw'r Rheoliadau i rym ar 30 Rhagfyr.

Amgaeaf gopi o'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, y bwriadaf ei osod ar ôl i'r offeryn statudol gael ei gofrestru.

Yn unol â pharagraff 7 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, rhaid i'r Rheoliadau gael eu gosod gerbron y Senedd a'u cymeradwyo gan 6 Chwefror 2022 er mwyn iddo barhau mewn grym.

O dan yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol a gall y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau cyfrifol gyflwyno adroddiad arno. Efallai y byddai'n ddefnyddiol gwybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar gyfer yr eitem hon o is-ddeddfwriaeth ar 1 Chwefror 2022.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 7?
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Cofion,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping 'L' and 'G'.

Lesley Griffiths AS

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Eitem 4.4

SL(6)115 – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021

Cefndir a diben

Sefydlwyd Cynllun Masnachu Allyriadau ("ETS") y DU gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 ("y prif Orchymyn") fel cynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer y DU gyfan, fel ffordd gost-effeithiol o annog y sectorau pŵer, diwydiant ac awyrennau i leihau eu hallyriadau. Cafodd ei gynllunio ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae'n cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau a nod sero net y DU, yn ogystal â'r llwybr lleihau allyriadau sydd gennym yng Nghymru.

Mae'r ETS yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr mathau penodol o osodiadau diwydiannol a gweithredwyr mathau penodol o awyrennau fonitro, adrodd ar ac ildio "lwfansau" sy'n cyfateb i'w hallyriadau nwyon tŷ gwydr ym mhob un o flynyddoedd y cynllun. Cedwir lwfansau mewn cyfrifon yng nghofrestrfa ETS y DU, ac mae cap ar nifer y lwfansau y gellir eu creu. Ar gyfer gosodiadau sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd, mae dau gynllun optio allan, sef un ar gyfer "ysbytai neu allyrwyr bach" ("HSE") ac un ar gyfer "allyrwyr bach iawn" ("USE"). Nid oes angen i osodiadau o'r fath ildio lwfansau.

Mae'r prif newidiadau a wneir gan y [Gorchymyn](#) hwn yn cynnwys:

- caniatáu i osodiadau sydd ar hyn o bryd o fewn y cynllun optio allan ar gyfer ysbytai neu allyrwyr bach (y cynllun HSE) wneud cais i gynyddu eu targedau allyriadau os rhagwelir y bydd eu hallyriadau'n cynyddu ar ôl twf yn eu capasiti;
- cyflwyno mesurau polisi dros dro tra bod polisi ehangach yn cael ei ddatblygu o ran biodanwydd;
- caniatáu i berson nad yw eto'n weithredwr awyrennau wneud cais am gynllun monitro allyriadau;
- datrys gwall yn y fethodoleg ar gyfer cyfrifo dyraniad hawliau hedfan di-dâl ETS y DU i ymgeiswyr sy'n gymwys fel tyfwyr cyflym o dan ETS yr UE;
- eithrio awdurdod ETS y DU a gweinyddwr y gofrestrfa rhag atebolrwydd i dalu iawndal wrth ymgymryd â swyddogaethau (ond nid yw'r eithriad rhag atebolrwydd yn gymwys i weithredoedd neu anweithredoedd a wneir gyda "bwriad drwg");
- galluogi'r rheoleiddiwr i wrthod cynllun monitro gosodiad ac i weithredwr y gosodiad apelio yn erbyn y penderfyniad i'w wrthod.

Gweithdrefn

Gwneud Negyddol.



Mae'r Gorchymyn yn Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wnaed gan Ei Mawrhydi cyn cael ei osod gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cafodd ei osod gerbron y Senedd. Gall y tair deddfwrfa arall hefyd ddirymu'r Gorchymyn, yn unol â'r rheolau ar gyfer dirymu sy'n gymwys i bob un o'r deddfwrfeydd hynny.

Materion technegol: craffu

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gosodwyd y Gorchymyn gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Felly, mae'r Gorchymyn wedi'i wneud yn Saesneg yn unig.

Rhinweddau: Craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

11 Ionawr 2022



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 75

Legislation, Justice and Constitution Committee

Eitem 4.5

SL(6)114 – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2022

Cefndir a diben

Sefydlwyd Cynllun Masnachu Allyriadau ("ETS") y DU gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 ("y prif Orchymyn") fel cynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer y DU gyfan, fel ffordd gost-effeithiol o annog y sectorau pŵer, diwydiant ac awyrennau i leihau eu hallyriadau. Cafodd ei gynllunio ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae'n cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau a nod sero net y DU, yn ogystal â'r llwybr lleihau allyriadau sydd gennym yng Nghymru.

Mae'r ETS yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr mathau penodol o osodiadau diwydiannol a gweithredwyr mathau penodol o awyrennau fonitro, adrodd ar ac ildio "lwfansau" sy'n cyfateb i'w hallyriadau nwyon tŷ gwydr ym mhob un o flynyddoedd y cynllun. Cedwir lwfansau mewn cyfrifon yng nghofrestrfa ETS y DU, ac mae cap ar nifer y lwfansau y gellir eu creu. Ar gyfer gosodiadau sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd, mae dau gynllun optio allan, sef un ar gyfer "ysbytai neu allyrwyr bach" ("HSE") ac un ar gyfer "allyrwyr bach iawn" ("USE"). Nid oes angen i osodiadau o'r fath ildio lwfansau.

Mae'r prif newidiadau a wneir gan y [Gorchymyn](#) hwn yn cynnwys:

- galluogi rheoleiddiwr i osod cosb sifil pan na fydd person yn cydymffurfio â hysbysiad i ddychwelyd lwfansau;
- ymestyn y pŵer i gynnal archwiliadau o safleoedd i fonitro cydymffurfiaeth, fel y gall person awdurdodedig ddefnyddio'r pŵer (nid rheoleiddwyr yn unig);
- ei gwneud yn drosedd rhwystro person yn fwriadol wrth iddynt arfer pwerau mynediad;
- ei gwneud yn ofynnol i weithredwr gosodiad ildio unrhyw lwfansau sy'n brin o flynyddoedd blaenorol y cynllun pan fydd ei drwydded naill ai wedi'i hildio neu ei dirymu.

Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Rhaid i'r drafft gael ei gymeradwyo gan bob un o'r deddfwrfeydd hynny cyn y gellir ei wneud gan Ei Mawrhydi.



Materion technegol: craffu

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Felly, mae'r Gorchymyn drafft yn Saesneg yn unig a chaiff ei wneud yn Saesneg yn unig.

Rhinweddau: Craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

11 Ionawr 2022



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 77

Legislation, Justice and Constitution Committee

Eitem 5.1

SL(6)102 - Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Diwygio) (Cymru) 2021

Cefndir a Diben

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn diwygio saith set o reoliadau sy'n ymwneud â chyllid myfyrwyr. Mae'r rheoliadau cyllid myfyrwyr a ddiwygir gan y Rheoliadau hyn yn cynnwys meini prawf cymhwystra sy'n golygu y gall grwpiau penodol fod yn gymwys am gymorth i fyfyrwyr, statws ffioedd cartref a'r capiau ffioedd dysgu.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau cyllid myfyrwyr fel a ganlyn:

- Gwladolion Gwyddelig sy'n preswyllo yn yr UE cyn astudio yng Nghymru: mae'r diwygiadau'n gwneud darpariaeth ar gyfer gwladolion Gwyddelig sy'n astudio yng Nghymru a oedd yn preswyllo yn yr AEE a'r Swistir ar ddiwedd y cyfnod pontio, fel eu bod yn gymwys i gael statws ffioedd cartref a chymorth ffioedd fel bod eu sefyllfa'n gymaradwy â gwladolyn y DU;
- Cytundeb Ymadael â'r UE, cytundeb gwahanu EFTA yr AEE, a'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd: mae diwygiadau'n ymwneud â:
 - hawliau'r rheini sy'n gwneud cais hwyr i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, ac i aelodau o'r teulu yn y dyfodol sydd heb wneud cais eto ond sy'n parhau o fewn y terfyn amser ar gyfer gwneud hynny; a
 - diweddariadau i'r diffiniad o berson â hawliau gwarchoddedig er mwyn sicrhau bod y rheoliadau cyllid myfyrwyr yn rhoi amddiffyniadau:
 - i berson, gan gynnwys person sydd wedi cyflwyno cais hwyr, tra bo ei gais yn yr arfaeth ac yn ystod unrhyw apêl yn erbyn gwrthod ei gais; ac
 - i berson sydd o fewn y terfyn amser ar gyfer gwneud cais, gan gynnwys person sy'n ymuno ag aelod o'r teulu yn ystod y tri mis dilynol wedi iddynt gyrraedd y DU; a
- Chymorth i fyfyrwyr i'r rheini o Dirioogaethau Dibynnol ar y Goron: diwygiadau i sicrhau nad yw personau (ac eithrio dinasyddion Gwyddelig penodol) sy'n dod i Gymru o Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel at ddibenion astudio yn gymwys i gael cymorth (mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro bod hyn yn cywiro canlyniad anfwriadol diwygiadau blaenorol).

Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2021.

Gweithdrefn

Negyddol.



Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Mae Rheoliad 56 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod paragraff 8BA newydd yn Atodlen 2 i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019. Mae paragraff 8BA(2) yn cyfeirio at baragraff 1(5), ond ymddengys fod y cyfeiriad hwnnw'n wallus - mae paragraff 1(5) yn diffinio cwmpas y darpariaethau hawliau dinasyddion ac nid yw'n ymwneud ag a yw person yn cael ei drin fel rhywun sy'n preswyllo fel arfer.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r rhaglith i'r Rheoliadau hyn yn egluro eu bod yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau o dan adrannau 22(2)(a) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, ymhlith pwerau eraill.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Rheoliadau hyn hefyd yn cael eu gwneud o dan adran 22(2)(d) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Ymddengys fod hyn yn wall. Nid yw'n ymddangos bod y pŵer o dan adran 22(2)(d) yn berthnasol i gwmpas y Rheoliadau hyn.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau bod y Memorandwm Esboniadol yn anghywir ac nad oedd yn bwriadu dibynnu ar y pŵer galluogi o dan adran 22(2)(d) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 10 Ionawr 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Diwygio) (Cymru) 2021

Pwynt Craffu Technegol

Mae'r cyfeiriad at baragraff 1(5) yn anghywir. Fe ddylai gyfeirio at baragraff 11(2). Bydd hwn yn cael ei gywiro fel diwygiad yn y Rheoliadau nesaf sydd ar gael sydd i gael eu gwneud ym mis Mai 2022.

Pwynt Craffu ar Rinweddau

Mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod y Memorandwm Esboniadol yn anghywir. Bydd y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ailosod i ddileu'r cyfeiriad at y pŵer galluogi o dan adran 22(2)(d) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1982.

SL(6)118 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 23) 2021

Cefndir a Diben

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984") yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i nifer neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Gwneir [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Rhif 5\) \(Cymru\) \(Diwygio\) \(Rhif 23\) 2021](#) ("y Rheoliadau") drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c) a 45F(2) o Ddeddf 1984 mewn ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd a achosir gan nifer a lledaeniad COVID-19.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau"), gan gael effaith o 20 Rhagfyr 2021, er mwyn:

- rhestru'n benodol yn caniatáu neu'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogeion weithio gartref fel mesur rhesymol y gall fod yn ofynnol i gyflogeion ei gymryd yn unol â'r ddyletswydd o dan Gam 3 o reoliad 16;
- gosod dyletswydd newydd, o dan reoliad 18B, ar unigolion i weithio, neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol, o'u cartref lle mae'n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny;
- creu trosedd o dan reoliad 42A pan fo person, heb esgus rhesymol, yn mynd yn groes i'r gofyniad yn rheoliad 18B.

Gweithdrefn

Rheoliadau a wnaed yn gadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pedwar pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y Memorandwm Esboniadol:

"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwysu unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"O ystyried y bygythiad parhaus sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus prydlon, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Serch hynny, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid amrywiol gan gynnwys Is-adran Cydraddoldebau Llywodraeth Cymru."



3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau a gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau, i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Er y nodir bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi bod asesiadau cryno o'r effaith yn cael eu paratoi a fydd yn cynnwys effeithiau sy'n ymwneud â gweithio gartref, nid yw'n eglur a fydd y rhain yn cynnwys asesiad o effaith ar gydraddoldeb ac, beth bynnag, nid ydynt ar gael i'r dinesydd ar hyn o bryd at ddibenion asesu effaith y darpariaethau newydd sy'n cael eu cyflwyno gan y Rheoliadau ar gydraddoldeb.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Y tu hwnt i'r datganiad a ganlyn, nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nac yn cynnwys unrhyw gyfeiriadau penodol at y dystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu arni wrth wneud darpariaeth o dan y Rheoliadau:

"Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a berir gan y coronafeirws, yn enwedig y cynnydd cyflym mewn achosion Omicron."

Nodwn, fodd bynnag, y canlynol yn natganiad ysgrifenedig y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS ar 17 Rhagfyr 2021:

"Yn yr adolygiad diwethaf o'r rheoliadau coronafeirws ar 9 Rhagfyr, dywedais y byddwn yn newid o drefn adolygu bob tair wythnos i drefn wythnosol i fod yn siŵr fod gennym y mesurau cywir yn eu lle i gadw Cymru'n ddiogel wrth i'r amrywiolyn omicron ddod ar ein gwarthaf."

Mae'r amrywiolyn wedi cyrraedd Cymru. Mae'n fwy heintus ac yn lledaenu'n gyflym.

.....

Mae'r nifer sydd wedi'u heintio gan yr amrywiolyn omicron yn cynyddu bob dydd yng Nghymru – ac yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Erbyn diwedd y mis, fwy na thebyg, omicron fydd y ffurf fwyaf cyffredin ar y feirws. Rydym yn dal i ddysgu amdano. Ond mae popeth rydym yn ei wybod yn awgrymu bod sefyllfa ddifrifol iawn o'n blaenau."

O gofio'r ddyletswydd statudol ychwanegol y mae'r Rheoliadau yn ei gosod o dan reoliad newydd 18B, yn enwedig creu trosedd yn rheoliad 42A newydd, byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru nodi'r dystiolaeth berthnasol sy'n cefnogi'r tynhau sylweddol o ran y cyfyngiad ar weithio gartref ar hyn o bryd.



Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb oddi wrth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau 3 a 4 uchod yn unig.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 10 Ionawr 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 84

Legislation, Justice and Constitution Committee

Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 23) 2021

Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:

1. Mae Llywodraeth Cymru yn llunio ac yn cyhoeddi Aseidiadau Effaith Cryno fel mater o drefn mewn perthynas â newidiadau yn y rheoliadau Coronafeirws ar y cyfle cyntaf ar ôl pob cyfnod adolygu. Mae'r Aseidiadau Effaith Cryno hyn ar gael [yma](#).
2. Mae'r Aseidiadau Effaith Cryno yn ymdrin â'r meysydd a ganlyn:
 - Effaith ar Lesiant
 - Aseiad o'r Effaith ar yr Economi
 - Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
 - Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (os yw'n gymwys ac os nad yw'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ymdrin â hyn yn llawn)
 - Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Dynol
 - Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Pwynt Craffu ar Rinweddau 4:

3. Mae gweithio gartref yn un o'r ymddygiadau diogelu allweddol a all helpu i leihau cyfraddau trosglwyddo, yn enwedig pan fydd cyfraddau trosglwyddo yn y gymuned yn uchel. Mae gweithio gartref yn golygu ei bod yn anochel bod nifer y cysylltiadau unigol yn gostwng. Mae wedi cael ei dderbyn fel mesur sy'n arbennig o effeithiol er mwyn lleihau lledaeniad COVID yn ystod y pandemig fel a nodir yn y datganiad Consensus gan is-grŵp Gweithredol y Grŵp Gwyddonol ar Ffliw Pandemig – Modelu (SPI-M-O) ar gyfer y Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE), 30 Mehefin 2021 - [S1298_SPI-M-O_Consensus_Statement.pdf \(publishing.service.gov.uk\)](#)
4. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r cyngor ar y coronafeirws y mae'n ei gael oddi wrth y Gell Cyngor Technegol fel mater o drefn ac mae ar gael [yma](#). Yn y cyngor oddi wrth y Gell Cyngor Technegol dyddiedig 2 Rhagfyr, yr argymhelliad yw annog lleihau nifer y cysylltiadau cymdeithasol, "especially through increased working from home when that is a viable business option". Mae'r cyngor hwn ar gael [yma](#).
5. Awgrymodd data arolygon a data symudedd ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad nad oedd y canllawiau a'r negeseuon yn cael yr effaith a ddymunwyd o ran newid cyfran y bobl a oedd yn gweithio gartref yng Nghymru i leihau lledaeniad COVID. Ar yr adeg honno, awgrymodd y data fod nifer y bobl a oedd yn gweithio gartref wedi cyrraedd un o'r pwyntiau isaf ers dechrau'r pandemig.

Llywydd

Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

06 Ionawr 2022

Annwyl Lywydd

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau: cais i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad

Ar 7 Rhagfyr 2021, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar gyfer Bil Cenedligrwydd a Ffiniau Llywodraeth y DU at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r dyddiad cau a bennwyd ar gyfer cyflwyno adroddiad oedd dydd lau, 10 Chwefror 2022. Yn ystod ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm hefyd at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Rydym yn ysgrifennu atoch er mwyn gwneud cais i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad tan ddydd lau 17 Chwefror 2022.

Bydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn trafod ein dulliau o graffu ar y Memorandwm yn ystod ein cyfarfodydd cyntaf yn y flwyddyn newydd (ar 13 Ionawr). Rydym yn rhagweld y byddwn yn gofyn am ragor o dystiolaeth cyn dod i gasgliadau a gwneud argymhellion. Ni fyddai digon o amser i gyflwyno tystiolaeth cyn ein cyfarfod nesaf, sydd wedi'i drefnu ar 27 Ionawr. Felly, y cyfle cyntaf y byddai'r naill Bwyllgor neu'r llall yn ei gael i drafod y dystiolaeth mewn cyfarfod ar yr amserlen gyfredol fyddai'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer dydd lau 10 Chwefror, sef y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad.



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 Cysylltu@senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 Contact@senedd.wales

 0300 200 6565

Byddem yn ddiolchgar pe bai'r Pwyllgor Busnes yn cytuno, felly, i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad tan ddydd Iau 17 Chwefror, sef estyniad o wythnos. Bydd hyn yn caniatáu i'r ddau Bwyllgor dan sylw drafod y materion pwysig hyn yn ein cyfarfodydd ar 10 Chwefror, cyn cwblhau ein hadroddiadau drwy e-bost yn ystod yr wythnos ddilynol.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol



Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.





Huw Irranca-Davies MS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

07 Ionawr 2022

Annwyl Huw,

Ysgrifennaf atoch i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi caniatâd i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru. Mae cytundeb wedi'i roi i wneud Rheoliadau Gwastraff ac Amaethyddiaeth (Swyddogaethau Deddfwriaethol) 2022. Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 er mwyn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol neu ddiffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, mae'r offeryn hwn yn trosglwyddo rhai swyddogaethau technegol mewn perthynas â gwastraff o'r Comisiwn Ewropeaidd i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r llywodraethau datganoledig. Mae hefyd yn cywiro gwall yn Rheoliadau Amaethyddiaeth (Taliadau) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2020 (OS 2020/1445), mewnosod diffiniad o 'awdurdod priodol' ('appropriate authority') yn Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin a diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 352/78, (EC) Rhif 165/94, (EC) Rhif 2799/98, (EC) Rhif 814/2000, (EC) Rhif 1290/2005 a (EC) Rhif 485/2008 (EUR 2013/1306) at ddibenion ariannu, rheoli a monitro chynlluniau datblygu gwledig a chyd-drefniadaeth y marchnadoedd (CMO).

Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd bwerau sy'n ymwneud â Chyfarwydddebau mewn perthynas â gwastraff, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â cherbydau diwedd oes, batris a chronaduron, ac offer trydanol ac electronig yn benodol, yn ogystal â Chyfarwydddeb gyffredinol y Fframwaith Gwastraff. Mae'r offeryn hwn yn trosglwyddo nifer o bwerau a swyddogaethau technegol sy'n ymwneud â'r adnoddau hynny a Chyfarwydddebau rheoli gwastraff o'r Comisiwn Ewropeaidd i'r Ysgrifennydd Gwladol lle mae'r mater yn un a gedwir yn ôl, ac yn dibynnu ar y pŵer, i'r llywodraethau datganoledig lle mae hyn wedi'i ddatganoli. Bydd hyn yn caniatáu i ddeddfwriaeth berthnasol yr UE a ddargedwir weithredu'n gywir yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Bydd hyn yn galluogi'r DU a'r llywodraethau datganoledig i gynnal safonau amgylcheddol ar drin gwastraff yn ddiogel, lefelau adfer, ailgylchu a thrin

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 88
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gwastraff. Mae'r swyddogaethau a restrir yn yr offeryn hwn yn rhai arferol, ac mewn sawl achos, mae'r safonau, y gofynion neu'r swyddogaethau eraill a nodir eisoes ar waith ac yn gweithio'n dda – diben y pŵerau yw bod yn gallu eu newid yn y dyfodol pe bai angen, yn hytrach na cheisio eu diweddarau neu eu diwygio ar hyn o bryd.

Er nad yw'n bosibl diwygio Cyfarwydddebau'n uniongyrchol, gan nad yw'r rhain yn gyfraith yr UE a ddargedwir, mae'r pŵerau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn galluogi i'r pŵerau deddfwriaethol y maent yn eu rhoi i'r Comisiwn gael eu trosglwyddo i gyfraith ddomestig. Heb wneud hyn, byddai gallu cyfyngedig, neu dim gallu o gwbl, i wneud y math o fân newidiadau technegol i ddeddfwriaeth y mae'r pŵerau'n ymdrin â hwy heb orfod defnyddio deddfwriaeth sylfaenol ar bob achlysur. Byddai hyn yn gwneud y broses o newid manylion o'r fath yn araf ac yn feichus iawn, a byddai'n dileu hyblygrwydd i ymateb i newidiadau gwyddonol a thechnegol. Nid yw'r offeryn hwn ei hun yn gwneud unrhyw newidiadau polisi sylweddol. Mae'r safonau hyn i gyd yn weithredol ar hyn o bryd, ac nid ydym yn rhagweld y bydd angen eu newid yn fuan. Fodd bynnag, heb y pŵer i newid y safonau hyn, ni fyddai'n bosibl eu diweddarau os oes angen. Er enghraifft, pe bai'r OS hwn yn methu ac na throsglwyddwyd y pŵerau i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r llywodraethau datganoledig, pe bai technegau samplu neu dulliau trin gwastraff gwell yn cael eu datblygu yn y dyfodol, ni fyddem yn gallu addasu'r rheoliadau i ystyried y dulliau newydd.

Bydd yn awr yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r llywodraethau datganoledig wneud rheoliadau i osod neu newid y meini prawf technegol amrywiol y cyfeirir atynt ym mhob adran, yn bennaf er mwyn cadw i fyny â datblygiadau gwyddonol a thechnegol yn y dyfodol. Yn benodol, mae'n darparu ar gyfer gallu'r Ysgrifennydd Gwladol a'r llywodraethau datganoledig i gadw swyddogaethau o'r offerynnau canlynol:

- Y Gyfarwydddeb Tirlenwi (Cyfarwydddeb 1999/31/EC) (Rheoliad 5 o'r offeryn hwn) – i bennu safonau ar gyfer samplu gwastraff a gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.
- Y Gyfarwydddeb Cerbydau Diwedd Oes (Cyfarwydddeb 2000/53/EC) (Rheoliadau 6-9 o'r offeryn hwn) - pŵerau i ddiweddarau ac addasu esemptiadau sy'n cwmpasu defnyddio metelau trwm penodol mewn cerbydau yn seiliedig ar ddatblygiadau gwyddonol neu dechnegol; pennu'r gofynion sylfaenol ar gyfer y dystysgrif ddinistrio; pŵerau i addasu amodau ar gyfer storio a thrin yn unol â chynnydd gwyddonol neu dechnegol; a phŵerau i bennu safonau codio deunydd a chydannau ar gyfer cerbydau.
- Y Gyfarwydddeb Gwastraff Mwyngloddio (Cyfarwydddeb 2006/21/EC) (Rheoliadau 10-11 o'r offeryn hwn) – pŵerau i addasu elfennau nad ydynt yn hanfodol megis canllawiau ar gyfer arolygu cyfleusterau gwastraff a dulliau samplu, a diweddarau rheoliadau yn unol â chynnydd gwyddonol a thechnegol.
- Y Gyfarwydddeb Batris (Cyfarwydddeb 2006/66/EC) (Rheoliadau 12-13 o'r offeryn hwn) – y pŵer i bennu meini prawf allforio ac i roi esemptiadau rhag gofynion labelu ar gyfer batris a chronaduron.
- Y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff (Cyfarwydddeb 2008/98/EC) (Rheoliadau 14-17 o'r offeryn hwn) – pŵerau i ragnodi meini prawf ar gymhwysu'r amodau sgil-gynhyrchion; rhagnodi meini prawf ar ddiwedd amodau gwastraff; a phennu'r defnydd o'r fformiwla ar gyfer cyfleusterau llosgi.
- Y Gyfarwydddeb Trydanol ac Offer Electronig Gwastraff (WEEE) (Cyfarwydddeb 2012/19/EU) (Rheoliadau 18-20 o'r offeryn hwn) - pŵerau i ddiweddarau technolegau triniaeth gofynnol dethol; diweddarau'r gofynion technegol ar gyfer gweithrediadau trin a storio WEEE a'r rhestr nad yw'n hollgynhwysol o gynhyrchion a restrir fel rhai sy'n perthyn i bob un o'r categorïau a bennir yn y Gyfarwydddeb; ac i ddiweddarau'r symbol bin ar olwynion wedi'i groesi.

Bydd unrhyw reoliadau a wneir o dan y pwerau newydd hefyd yn cael eu gwneud gan OS o dan y weithdrefn negyddol, felly byddant yn dal i fod yn destun craffu unigol gan y Senedd bryd hynny.

At hynny, gwneir darpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol a, lle y bo'n berthnasol, y llywodraethau datganoledig, ymgynghori ag asiantaethau rheoleiddio perthnasol ac unrhyw un arall y maent yn ei ystyried yn briodol cyn arfer y swyddogaethau pŵer hyn.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â'r diffiniad o "awdurdod priodol" ("appropriate authority") yn EUR 2013/1306 i'r graddau y mae'n ymwneud â mesurau datblygu gwledig a'r Prif Swyddog Meddygol. Ymhlith pethau eraill, mae EUR 2013/1306 yn gosod fframwaith ar gyfer ariannu, rheoli a monitro cynlluniau datblygu gwledig a CMO, ac mae'n cynnwys swyddogaethau deddfwriaethol i ddatblygu a mireinio'r manylion technegol sydd eu hangen i weithredu cynlluniau. Mae rheoliad 24 yn ailosod y diffiniad o "awdurdod priodol" ("appropriate authority") yn y Rheoliad hwnnw ac mae rheoliad 25 yn dirymu'r diffiniad aneffeithiol yn OS 2020/1445.

Mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo, lle bo amser yn caniatáu, y byddwn yn rhoi cyfle i'r Senedd fynegi barn cyn rhoi caniatâd yn ffurfiol. Yn anffodus, nid oedd yn bosibl gwneud hynny ar gyfer yr OS hwn oherwydd er mai dim ond yn ddiweddar y cafodd ei osod, rhoddwyd caniatâd rai wythnosau'n ôl a chyn i'r ymrwymiad gael ei weithredu.

Yn gywir,



Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

07 Ionawr 2022

Annwyl Huw,

Ysgrifennaf ynghylch y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a osodais ar 20 Rhagfyr 2021 (Memorandwm (Rhif 3)) a heddiw (07 Ionawr 2022 (Memorandwm (Rhif 4)) mewn perthynas â Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd.

Byddwch, rwy'n siŵr, yn ymwybodol o gymhlethdod y Bil sydd â 179 o gymalau, yn 304 tudalen ac yn cynnwys 20 o atodlenni. Yn ogystal â hyn, gosododd Llywodraeth y DU 91 o welliannau i'r Bil ar 1 Rhagfyr 2021 a gosodwyd 19 o welliannau pellach ar 4 Ionawr 2022, yr oedd pob un ohonynt yn gofyn am ddadansoddi manwl i bennu a oeddent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae hyn yn dilyn gwelliant blaenorol a osodwyd ym mis Hydref 2021.

Ychydig iawn o amser sydd rhwng y set ddiweddaraf o welliannau a osodwyd ar 4 Ionawr 2022 a'r dyddiad y mae'n rhaid i'r Senedd roi cydsyniad deddfwriaethol ystyrlon, gan fod y ddadl wedi'i threfnu ar gyfer 18 Ionawr 2022 – mae hyn yn adlewyrchu amserlen ddeddfwriaethol y DU. Mae fy swyddogion wedi gweithio'n galed cyn, ac yn ystod, cyfnod y Nadolig er mwyn sicrhau bod Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol cynhwysfawr yn cael eu gosod. Yn anffodus, o ganlyniad i nifer a chymhlethdod y gwelliannau a gyflwynwyd ar 1 Rhagfyr, ac ar ôl hynny ar 4 Ionawr, ychydig o amser sy'n weddill i ganiatáu ar gyfer craffu ar Femorandwm (Rhif 3) a Memorandwm (Rhif 4) cyn dadl y Senedd. Unwaith eto, mae hyn yn adlewyrchu cyflymder amserlen ddeddfwriaethol y DU.

Ym Memorandwm (Rhif 3), fy nod oedd amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a osodwyd ar 1 Rhagfyr 2021, sy'n effeithio ar faterion datganoledig a hefyd aildatgan safbwynt Llywodraeth Cymru ar weddill cymalau'r Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd, yn fy marn i. Fodd bynnag, o ganlyniad i bwysau amser gwnaethom hepgor

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 102
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cymalau 1, 2, 23-30, 32-35, 37-38, 41 a 43 a chynnwys cymal 40 mewn camgymeriad. I nodi, ymdriniwyd â chymalau 1, 2, 23-37, 41 a 43 yn llawn yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 28 Mai 2021. Ers hynny, rwyf wedi gosod Memorandwm (Rhif 4) sy'n cywiro'r camgymeriadau hyn ac sydd hefyd yn cynnwys manylion cymal 38 sydd wedi'i fewnosod o'r newydd a'm safbwynt i arno, a'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 4 Ionawr 2022 sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Mae Memorandwm (Rhif 4) yn cynnig golwg cyflawn ar y cymalau perthnasol, gan fynd i'r afael â'r hepgoriadau blaenorol a darparu golwg cynhwysfawr ar y cymalau sy'n effeithio ar faterion datganoledig. Rwy'n argymhell ei ddefnyddio fel eich pwynt cyfeirio cyntaf wrth ystyried y Bil.

Gellir dod o hyd i Femorandwm (Rhif 3) yn:

<https://senedd.cymru/media/t4uhtlpq/slcm-ld14793-w.pdf>

Gellir dod o hyd i Femorandwm (Rhif 4) yn:

<https://senedd.cymru/media/2ughikqn/slcm-ld14812-w.pdf>

Rwyf hefyd yn amgáu tabl gyda'r llythyr hwn sy'n amlinellu cymylau'r Bil fel y'u cyflwynwyd a'u diwygiwyd, er gwybodaeth.

Ar 16 Gorffennaf 2021 mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 2 Orffennaf, awgrymodd y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes efallai yr hoffai eich pwyllgor wahodd Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i fynychu unrhyw gyfarfodydd lle y gallai'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil gael ei drafod. Felly, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Jenny Rathbone AS, yn ogystal ag at bob Aelod o'r Senedd.



Jane Hutt AS/MS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

**Comparison table between the original and new version of the Bill 30
November 2021**

Original version:

[newbook.book \(parliament.uk\)](http://newbook.book.parliament.uk)

New version:

[newbook.book \(parliament.uk\)](http://newbook.book.parliament.uk)

Clause number on introduction	Original clause description	A amended at report stage clause No
1	Police Covenant report	1
2	Increase in penalty for assault on emergency worker	2
3	Special constables and Police Federations: amendments to the Police Act 1996	3
4	Meaning of dangerous driving: constables etc (dangerous)	4
5	Meaning of careless driving: constables etc (careless)	5
6	Regulations relating to section 5 and 6 (regs)	6
7	Duties to collaborate and plan to prevent and reduce serious violence	7
8	Powers to collaborate and plan to prevent and reduce serious violence	8
9	Power to authorise collaboration etc. with other persons	9
10	Specified authorities and local government areas	10
11	Educational, prison and youth custody authorities	11
12	Preventing and reducing serious violence	12

13	Involvement of local policing bodies	13
14	Involvement of educational, prison and youth custody authorities	14
15	Disclosure of information	15
16	Supply of information to local policing bodies	16
17	Directions	17
18	Guidance	18
19	Amendments to the Crime and Disorder Act 1998	19
20	Amendment to the Police and Justice Act 2006	20
21	Regulations	21
22	Index of defined expressions	22
23	Duty to arrange a review	23
24	Relevant review partners	24
25	Relationship with other review requirements	25
26	Notification of Secretary of State	26
27	Conduct of review	27
28	Information	28
29	Information: supplementary	29
30	Delegating functions	30
31	Guidance	31
32	Power to pay grant: local health boards	32
33	Piloting	33
34	Regulations	34
35	Interpretation	35
36	Extraction of information from electronic devices: investigations of crime etc	36
37	Application of section 36 to children and adults without capacity	37
	Requirements for voluntary provision and agreement	38
38	Application of section 36 where user has died etc.	39

39	Extraction of information from electronic devices: investigations of death	40
40	Code of practice about the extraction of information	41
41	Regulations about the extraction of confidential information	42
42	Authorised persons	43
43	Pre-charge Bail	44
44	Arranging or facilitating commission of a child sex offence	45
45	Positions of trust	46
46	Criminal damage to memorials: mode of trial	47
47	Overseas production orders	48
48	Power to photograph certain persons at a police station	49
49	Power to specify date of attendance at police station for fingerprinting etc	50
50	Entry and search of premises for human remains or material relating to human remains	51
51	Special procedure for access to material relating to human remains	52
52	Additional seizure powers	53
53	Functions of prisoners custody officers in relation to live link hearings	54
	Proceeds of crime: Account freezing orders	55
54	Imposing conditions on public processions	56
55	Imposing conditions on public assemblies	57

56	Offences under sections 12 and 14 of the Public Order Act 1986	58
57	Obstruction of vehicular access to Parliament	59
58	Power to specify other areas as controlled areas	60
59	Intentionally or recklessly causing public nuisance	61
60	Imposing conditions on one-person protests	62
61	Offence relating to residing on land without consent in or with a vehicle	63
62	Amendments to existing powers	64
63	Guidance on exercise of police powers in respect of trespassers on land etc	65
64	Causing death by dangerous driving or careless driving when under the influence of drink or drugs: increased penalties	66
65	Causing serious injury by careless, or inconsiderate, driving	67
66	Road traffic offences: minor and consequential amendments	68
67	Courses offered as alternative to prosecution: fees etc	69
68	Charges for removal, storage and disposal of vehicles	70
69	Production of licence to the court	71
70	Surrender of licence to Secretary of State where disqualified	72
71	Removal of requirement to surrender licence where fixed penalty notice	73

72	Removal of requirement to deliver up licence where conditional offer	74
73	Surrender of licence and test certificate where new driver	75
74	Minor and consequential amendments	76
75	Power to issue fixed penalty notices on-the-spot in Scotland	77
76	Diversions and community cautions	78
77	Giving a diversionary caution	79
78	Deciding on the conditions	80
79	Rehabilitation and reparation conditions	81
80	Financial penalty conditions	82
81	Foreign offenders' conditions	83
82	Variation of conditions	84
83	Effect of diversionary caution	85
84	Arrest for failure to comply	86
85	Application of Police and Criminal Evidence Act 1984	87
86	Giving a community caution	88
87	Deciding on the conditions	89
88	Rehabilitation and reparation conditions	90
89	Financial penalty conditions	91
90	Enforcement of financial penalties: registration	92
91	Enforcement of financial penalties: court proceedings	93
92	Variation of conditions	94
93	Effect of community caution	95
94	Code of practice	96
95	Restriction on multiple cautions	97

96	Abolition of other cautions and out of court disposals	98
97	Consequential amendments relating to Part 6	99
98	Regulations under part 6	100
99	Interpretation of Part 6	101
100	Minimum sentences for particular offences	102
101	Whole life order as starting point for premeditated child murder	103
102	Whole life orders for young adult offenders in exceptional cases	104
103	Starting points for murder committed when under 18	105
104	Sentences of detention at Her Majesty's pleasure: review of minimum term	106
105	Life sentence not fixed by law: minimum term	107
106	Increase in requisite custodial period for certain violent or sexual offenders	108
107	Increase in requisite custodial period for certain other offenders of particular concern	109
108	Power to refer high-risk offenders to Parole Board in place of automatic release	110
109	Power to make provision for reconsideration and setting aside of Parole Board decisions	111
110	Responsibility for setting licence conditions for fixed-term prisoners	112
111	Repeal of uncommenced provision for establishment of recall adjudicators	113
112	Release at direction of Parole Board after recall: fixed-term prisoners	114

113	Power to change test for release of fixed-term prisoners following recall	115
114	Release at direction of Parole Board: timing	116
115	Extension of driving disqualification where custodial sentence imposed: England and Wales	117
116	Increase in driving disqualification periods under certain existing orders: England and Wales	118
117	Extension of driving disqualification where custodial sentence imposed: Scotland	119
118	Increase in driving disqualification periods under certain existing orders: Scotland	120
119	Calculation of period before release or Parole Board referral where multiple sentences being served	121
120	Application of release provisions to repatriated Prisoners	122
121	Sentences and offenses in respect of which polygraph condition may be imposed	123
122	Minor amendments to do with weapons-related offences	124
123	Application of provision about minimum terms to service offences	125
124	Supervision by responsible officer	126
125	Increases in maximum daily curfew hours and curfew requirement period	127

126	Power for responsible officer to vary curfew requirements etc	128
127	Removal of attendance centre requirements for adults	129
128	Special procedures relating to review and breach	130
129	Drug testing requirement	131
130	Duty to consult on unpaid work requirements	132
131	Youth Remand	133
132	Discretion as to length of term	134
133	Consecutive detention and training order and sentence of detention: effect of early release decision	135
134	Detention and training order: time to count as served	136
135	Youth rehabilitation orders	137
136	Abolition of reparation orders	138
137	Temporary release from secure children's homes	139
138	Secure 16 to 19 Academies	140
139	Serious violence reduction orders	141
140	Serious violence reduction orders: piloting	142
141	Locations for sexual offender notification	143
142	Offences outside the United Kingdom: notification requirements	144
143	Notification orders: Scotland	145
144	Applications by British Transport Police and Ministry of Defence Police	146
145	List of countries	147
146	Requirement for courts and certain persons to have regard to the list of countries	148

147	Standard of proof	149
148	Sexual harm prevention orders: power to impose positive requirements	150
149	Sexual risk orders: power to impose positive requirements	151
150	Positive requirements: further amendments	152
151	Electronic monitoring requirements	153
152	Positive requirements and electronic monitoring requirements: service courts	154
153	Enforcement of requirements of orders made in Scotland or Northern Ireland	155
154	Effect of conviction for breach of Scottish order etc	156
155	Orders superseding, or superseded by, Scottish orders	157
156	Variation etc of order by court in another part of the United Kingdom	158
157	Terrorist offenders released on licence: arrest without warrant pending recall decision	159
158	Power to search terrorist offenders released on licence	160
159	Search of premises of offender released on licence for purposes connected with protection from a risk of terrorism	161
160	Powers of seizure and retention	162
161	Sections 157-159 to 160-162: consequential provision	163
162	Arrangements for assessing etc risks posed by certain offenders	164
163	Rehabilitation of offenders	165

164	British Sign Language interpreters for deaf jurors	166
165	Continuation of criminal trial on death or discharge of a juror	167
166	Remote observation and recording of court and tribunal proceedings	168
167	Offence of recording or transmission in relation to remote proceedings	169
168	Expansion of use of video and audio links in criminal proceedings	170
169	Repeal of temporary provision	171
	Expedited procedure for initial regulations about remote observation of proceedings	172
170	Financial provision	173
171	Minor amendment arising out of sentencing consolidation	174
172	Power to make consequential provision	175
173	Power to state effect in Sentencing Act 2020 of commencement of amendments made by this Act	176
174	Extent	177
175	Commencement	178
176	Short title	179



Ein cyf/Our

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

07 Ionawr 2022

Annwyl Huw,

Gydag ymddiheuriadau diffuant, cafodd y llythyr hwn ei ysgrifennu'n wreiddiol ar 2 Rhagfyr 2021 ond oherwydd amrufusedd, ni chafodd ei anfon. Ar adeg drafftio'r llythyr hwn, roedd yn ateb y ddau argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol (Rhif 2) ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd a gyhoeddwyd ar 25 Tachwedd.

Gan fod y llythyr hwn bellach wedi dyddio, rwy'n ei anfon fel mater o ffurfioldeb.

Ar 7 Ionawr 2022, anfonais lythyr arall atoch, ynghyd â memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol Rhif 4, sy'n nodi'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r Bil.

Rwy'n ysgrifennu mewn cysylltiad â'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 25 Tachwedd ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd a osodwyd ar 5 Tachwedd.

Rwy'n nodi eich dau argymhelliad ac rwyf wedi eu hateb fel yr amlinellir isod.

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog, cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, gadarnhau pam nad oedd Memorandwm Rhif 2 ar y Bil yn cyfeirio at gymalau 7 ac 8, ac esbonio hefyd sut mae cymal 17 yn ymwneud â chymalau "9 i 22" fel y nodir ym Memorandwm Rhif 2.

Ateb:

Digwyddodd gwall wrth ddrafftio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol. Dylai fod wedi nodi, o ystyried y gwelliant y cytunwyd arno i gymal 17, ein bod o'r farn bod cymalau 7 i 22 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd, a dylid bod

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 114
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

wedi cyfeirio at y cymalau hynny fel rhai yr wyf yn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydysniad iddynt.

Roedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 28 Mai yn argymhell y dylid atal cydsyniad deddfwriaethol y Senedd i gymalau 9, 17 a 18 gan nad oedd oeddent yn ystyried natur ddatganoledig y cymalau hynny'n ddigonol, hynny yw caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol osod swyddogaeth ar Awdurdodau Cymreig Datganoledig. Roedd yr un Memorandwm yn argymhell y dylid rhoi cydsyniad deddfwriaethol y Senedd i gymalau 7, 8, 10-16 a 19-22 gan nad yw'r cymalau hyn yn gosod swyddogaethau ar Awdurdodau Cymreig Datganoledig.

Mae'r gwelliant a osodwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwydd sy'n ymwneud â chymal 17 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn defnyddio'r pŵer i gyfarwyddo Awdurdodau Cymreig Datganoledig. O ystyried y gwelliant, rydym bellach yn fodlon bod y pecyn o fesurau a gynhwysir yng nghymalau 7-22 yn darparu amddiffyniad a mesurau diogelu priodol o ran y rhyngweithio ag Awdurdodau Cymreig Datganoledig a materion datganoledig eraill ac rwyf bellach yn argymhell y dylid rhoi cydsyniad y Senedd i gymalau 7-22 o'r Bil.

Rydym yn rhagweld y bydd newidiadau pellach i'r Bil, gan gynnwys diwygiadau pellach i'r cymalau ynghylch y ddyletswydd trais difrifol, yn ogystal â chyflwyno darpariaethau cwbl newydd. Deallwn y gall gwelliannau barhau i gael eu cyflwyno mor hwyr â 4 Ionawr. Bydd swyddogion yn parhau i sicrhau bod y Pwyllgor a'r Senedd yn cael gwybodaeth am ddarpariaethau'r Bil hwn, sy'n newid yn barhaus, yn unol â gofynion Rheol Sefydlog 29 fel bod ganddynt y darlun llawnaf ar adeg y ddadl mewn perthynas â'r darpariaethau hynny yr ystyrir eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog, cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, gadarnhau safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch pa gymalau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd iddynt, a hefyd:

- *y cymalau y mae'n argymhell rhoi cydsyniad iddynt;*
- *y cymalau nad yw'n argymhell rhoi cydsyniad iddynt;*

Ateb:

Rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol ynghylch cymalau'r Bil fel y'i diwygiwyd yn dilyn Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi:

Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell cydsynio i'r cymalau canlynol:

Rhan 1 – Cymal 1 Cyfamod yr Heddlu

Rhan 1 – Cymal 2 Cynyddu'r gosb am ymosod ar weithwyr brys

Rhan 2 – Cymalau 7-22 Dyletswydd Trais Difrifol

Rhan 2 – Cymalau 23-35 Adolygiad o Laddiadau ag Arfau Tramgwyddus

Rhan 2 – Cymalau 36-37, a 41-43 Echdynnu Gwybodaeth o Ddyfeisiau Electronig

Rhan 3 – Cymal 61 Achos niwsans cyhoeddus yn fwriadol neu'n ddi-hid

Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell atal cydsyniad i'r cymalau canlynol:

Rhan 2 – Cymal 47 Difrod Troseddol i Gofebau: dull treial

Rhan 3 – Cymalau 56, 57 a 60 Trefn Gyhoeddus

Rhan 4 – Cymal 63 Gwersylloedd diawdurdod (Trosedd sy'n ymwneud â byw ar dir heb ganiatâd mewn cerbyd neu gyda cherbyd)

Fel y nodwyd uchod, mae'r Bil hwn yn newid yn barhaus, ac o ystyried y dyddiad cyflwyno olaf tebygol, sef 4 Ionawr, bydd y darlun llawn o ran y Bil yn parhau'n ansicr tan yn agos iawn at y ddadl yn y Senedd. O'r herwydd, gallai argymhellion Llywodraeth Cymru ynghylch cydsyniad barhau'n ansicr tan hynny.

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a long horizontal line above the first letter 'J'.

Jane Hutt AS/MS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Huw Irranca Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

6 Rhagfyr 2021

Annwyl Huw

Ysgrifennaf atoch i hysbysu'r Pwyllgor bod y Bil Cymwysterau Proffesiynol (y Bil) bellach wedi symud ymlaen drwy gyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Mae gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ac y cytunwyd arnynt yn y Cyfnod Adrodd yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, ac rwyf heddiw wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) gerbron y Senedd.

Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi

Cyflwynodd Llywodraeth y DU dri gwelliant ar 2 Tachwedd i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd yr Arglwyddi a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd, lle cytunwyd ar y gwelliannau hyn. Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud gwelliannau i Gymal 1 y Bil ac wedi mewnosod cymalau 14 a 15 ychwanegol, fel y cytunwyd yng Nghyfnod Adrodd yr Arglwyddi. Mae'r tri chymal yn gwneud darpariaethau y gallai Senedd Cymru ddeddfu drostynt mewn perthynas â meysydd datganoledig, ac sy'n parhau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Cymal 1 – Pŵer i ddarparu ar gyfer trin unigolion fel rhai sydd â chymwysterau o'r DU

Mae'r cymal yn rhoi pŵer i'r "awdurdod cenedlaethol priodol" ddarparu drwy reoliadau pa gymwysterau proffesiynol neu brofiad arall a geir y tu allan i'r DU y gellir eu cydnabod o fewn y DU. Ni chaiff rheoliadau ond gwneud darpariaeth ar gyfer unigolion sy'n bodloni'r meini prawf a bennir yn y cymal hwn, sef eu bod wedi derbyn cymwysterau neu brofiad tramor; a bod rheoleiddiwr wedi penderfynu bod eu cymwysterau neu brofiad yr un fath i bob pwrpas â'r hyn sy'n ofynnol gan y rheoleiddiwr neu, fel arall, eu bod wedi cymryd unrhyw brofiad neu gymwysterau eraill yn ôl yr angen. Mae'r gwelliant i'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch yr amodau ychwanegol y caniateir eu pennu mewn rheoliadau.

Cymal 14 - Diogelu ymreolaeth rheoleiddwyr

Mae'r cymal newydd hwn yn atal yr awdurdod cenedlaethol priodol rhag gwneud rheoliadau o dan adran 1, 3 neu 4 o'r Bil oni bai ei fod wedi ei fodloni bod yr amodau yn is-adrannau (2) a (3) o'r cymal 14 newydd wedi eu cyflawni. Ychwanegwyd y cymal hwn i roi sicrwydd i

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

reoleiddwyr mai dim ond pan na fyddai gwneud hynny'n cael effaith andwyol ar ymreolaeth reoleiddiol y caiff yr awdurdod cenedlaethol priodol ddeddfu.

Er y gall y gwelliant gynnig rhywfaint o gysur i reoleiddwyr, yr anhawster o hyd yw mai mater i'r awdurdod cenedlaethol priodol yn unig yw penderfynu a yw'n fodlon bod y naill neu'r llall o'r amodau hyn yn cael eu bodloni ai peidio, ac nad mater i bob rheoleiddiwr unigol yw penderfynu.

Mae'r gwelliant hwn yr un mor berthnasol i bob un o'r awdurdodau cenedlaethol priodol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru lle bo hynny'n berthnasol. Mae hyn yn golygu, pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor yn gweithredu fel yr awdurdod, bod ganddynt y pŵer i benderfynu bod yr amodau ychwanegol yn cael eu bodloni, hyd yn oed wrth reoleiddio mewn meysydd datganoledig sy'n groes i nodau polisi rheoleiddwyr Cymru neu Weinidogion Cymru.

Cymal 15 – Ymgynghori â rheoleiddwyr

Mae'r cymal newydd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cenedlaethol priodol ymgynghori â rheoleiddiwr proffesiwn rheoleiddiedig cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 1, 3 neu 4 os yw'r awdurdod o'r farn bod y rheoliadau'n debygol o effeithio ar y rheoleiddiwr neu ei bod fel arall yn briodol ymgynghori â'r rheoleiddiwr. Er y gall rhai rheoleiddwyr groesawu'r cyfaddawd hwn, nid yw'n mynd mor bell ag atal yr awdurdod cenedlaethol priodol rhag gwneud rheoliadau y mae'r rheoleiddwyr wedi'u gwrthwynebu yn ystod ymgynghoriad o'r fath.

Fel Cymal 14, mae'r gwelliant hwn yr un mor berthnasol i bob un o'r awdurdodau cenedlaethol priodol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru lle bo hynny'n berthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliant yn atal yr Ysgrifennydd Gwladol na'r Arglwydd Ganghellor, wrth weithredu fel yr awdurdod, rhag gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig sy'n groes i nodau polisi rheoleiddwyr Cymru neu Weinidogion Cymru.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

Er fy mod yn croesawu ymgysylltiad Llywodraeth y DU hyd yma o ran yr angen i wneud newidiadau i'r Bil fel y mae, credaf fod angen gwelliannau pellach i fynd i'r afael â'm pryderon mewn perthynas â'r pwerau cydredol yn y Bil ac felly ni allaf argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydysniad i gynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil.


Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Fel y gwyddoch, mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol "fel rheol" o fewn pythefnos i gyflwyno gwelliannau Llywodraeth y DU, yn yr achos hwn erbyn 16 Tachwedd. Mae'r gwelliannau'n codi nifer o faterion cyfansoddiadol cymhleth y mae eu dadansoddiad wedi arwain at oedi cyn gosod.

Os bydd unrhyw welliannau pellach sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd yn cael eu cyflwyno neu eu cytuno wrth i'r Bil fynd drwy Dŷ'r Cyffredin, efallai y bydd angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach a byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor ac Aelodau'r Senedd cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn.

Rwyf wedi ysgrifennu i'r un perwyl at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ac wedi rhoi copi o'r llythyr hwn i holl Aelodau'r Senedd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of a large 'J' followed by a series of wavy lines and a short horizontal stroke at the end.

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael y Llywodraeth) (Diwygio) 2021

TEITL Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) 2021

DYDDIAD 25 Mai 2021

GAN Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael y Llywodraeth) (Diwygio) 2021

Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) 2021

Trosolwg Polisi o'r OSau:

Mae angen diwygio deddfwriaeth gaffael (a nodir isod) er mwyn gweithredu'r canlynol yn ddomestig:

- Cytundeb ar Gaffael y Llywodraeth (o dan Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael y Llywodraeth) (Diwygio) 2021); ac
- y rhwymedigaethau caffael mewn cytundebau masnach rhyngwladol (o dan Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) 2021

Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio:

- Caffael Cyhoeddus (Gwelliant ac ati) (Ymadael â'r UE) Rheoliadau 2020
- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015
- Rheoliadau Contractau Consesiynau 2016
- Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016
- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (Yr Alban) 2015
- Rheoliadau Contractau Consesiynau (Yr Alban) 2016
- Rheoliadau Contractau Cyfleustodau (Yr Alban) 2016

Diben y gwelliannau

Diben y diwygiadau yw gwneud diwygiadau technegol i ddeddfwriaeth gaffael bresennol er mwyn sicrhau bod rhwymedigaethau caffael rhyngwladol yn cael eu gweithredu'n llawn ledled y DU.

